Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 10fed Mehefin 2019

Presennol: Gadeirydd Steve Lewis, Is Gadeirydd Robert Jones, Dylan Jarman, Eleri Puw, Elwyn Evans, Miriam Webb, H.E. Thompson, Cynghorydd Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.
Yddiheuriad: Nodwyd bod Cyng. Wendy Whitby wedi gadael y pentref, ymddiheurodd eu bod wedi bod yn symol.
Datgan Diddordeb: Dylan Jarman rhif 9 a Miriam Webb rhif 13
Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd. Derbyniwyd cofnodion Mai a llofnodwyd gan y Cadeirydd Steve Lewis
Cae Chwarae: Pasiwyd i dalu am dorri gwair.
Mynwentydd: Pasiwyd i dalu am dorri gwair y Llan
Llwybrau: Pasiwyd i dalu Alwena Jones & Bright am waith ar y llwybyr ger Maesymeillion.
Toiledau Cyhoeddus: Pasiwyd i lofnodi cytundeb Cyngor Gwynedd i gyd weithio am ddwy flynedd.
Adroddiad Cadeirydd S Lewis: Nodwyd mae cost Defibrilator newydd wedi ei leoli ar yY Ganolfan yw £800.00. Gwaith gan Cyngor Gwynedd ger yY Ganolfan wedi ei orffen – bydd hyn yn help i dwr trwm llifo heibio Y Ganolfan, Nodwyd bod problem Knotweed yn codi ei ben eto. Trwy ambell ddamwain yn y pentre, deallwyd bod problem gyda gwahanol ucher rhai cerbs. Tynnu sylw adran priffydd. Diolch Cadeirydd Lewis.
Cyng. Gwynedd: Adroddodd ei bod wedi cysylltu efo Dylan Williams ynglyn ag arwyddion ynglyn a gorr yrru i'r pentref. Nododd ei bod yn Is Gadeirydd ar Pwyllgor Craffu Gofal. Hefyd bydd dau Cynghorydd Gwynedd yn ymweld a'r ardal Gorffennaf 24ain a bydd Cyng Lawton yn eu cyfarfod i dynnu sylw at amryw bethau. Diolch Cyng Beth Lawton.
Adran Iechyd Tywyn: Cydnabwyd ein llythyr atynt.
Apêl am arian: Dau apêl i law. Trafodwyd a phasiwyd i roi rhodd.
Parc Cenedlaethol: Cais Np5/67/264A – Encilfa A487, Minffordd – trafodwyd , nid yn hapus efo uchedr y mast teleathrebu.
Parc Cenedlaethol: Ymgynghoriad Cyhoeddus – CCA6: Llety Ymwelwyr – yw weld yn Llyfrgell Tywyn.
Pasiwyd i ad dalu y Clerc am "shredder" a "internet security"
Adroddiad Clerc: Apêl am garnt gan Calor – angen rhagor o bleidleisiau cyn 17/06/19 i fynd i'r rhan nesaf Carnifal Abergynolwyn: Derbyniwyd llythyr trwy law Cyng. Miriam Webb yn holi am ein cefnogaeth i redeg Tombola ar prynhawn dydd Mawrth 30ain Gorffennaf. Pawb yn hapus i gefnogi.
Taliadau:

Owain Williams	gwair	£680.00	siec 966
Alwena Jones & Bright	ffi	287.00	967
Eisteddfod Abergynolwyn	rhodd	150.00	968
Dail Dysynni	rhodd	100.00	969
Eileen Jones	cost swyddfa	49.99	970
Eileen Jones	cost swyddfa	59.99	971

Cartref Mari Jones:
1. Casglwyd £14.03 Diolch Cadeirydd S Lewis.
2. adroddodd bod eisiau cadw sylw ar tyfinant rodedenrons.